| Cyfeirnod: Dogfen UHB 198 i'w hadolygu<br>Rhif y Fersiwn: 3 | *Dyddiad Adolygu Nesaf: 26 Tachwedd 2028*<br>*Cyfeirnod Blaenorol yr Ymddiriedolaeth/BILI:* |
|---|---|

# Gweithdrefn Cydnabod Dysgu Blaenorol (CDB)

**Cyflwyniad a Nod**

Mae adran Addysg, Diwylliant a Datblygu Sefydliadol (ADDS) Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn Ganolfan Ddysgu Achrededig (CDdA). Fel CDdA, mae'r adran ADDS yn datblygu ac yn darparu dysgu achrededig, gan weithio ar y cyd â'r Corff Dyfarnu cenedlaethol Agored Cymru.

Fel canolfan sy'n darparu dysgu achrededig drwy'r unedau a'r cymwysterau Dysgu Gydol Oes â Sicrwydd Ansawdd sy'n rhan o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol gael Gweithdrefn Cydnabod Dysgu Blaenorol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i ganiatáu i unigolion hawlio credyd am ddysgu blaenorol lle mae'n werthfawr i ddysgwyr wrth hwyluso asesu a dilyniant.

Nod y weithdrefn hon yw amlinellu'r broses cydnabod dysgu blaenorol er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth a sgiliau a gyflawnwyd yn flaenorol yn cael eu cydnabod yn briodol er mwyn osgoi ailadrodd gwaith ac asesu.  Mae'r weithdrefn hon yn cyd-fynd â'r canllawiau a nodir gan bolisi a gweithdrefn Cydnabod Dysgu Blaenorol y Corff Dyfarnu.

**Amcanion**

- Cynnal safonau academaidd yn y sefydliad.
- Sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â gweinyddu, cyflwyno ac asesu dysgu achrededig yn deall eu cyfrifoldebau personol i ddefnyddio cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol lle bo hynny'n briodol.
- Sicrhau bod yr holl staff sy'n cyflwyno, asesu neu gwblhau uned ddysgu neu gymhwyster achrededig yn deall y broses o ystyried tystiolaeth o ddysgu blaenorol fel tystiolaeth o gyflawniad.
- Sicrhau uniondeb a dilysrwydd yr holl asesiadau academaidd a chymhwysedd o fewn y BIP.

**Cwmpas**

Mae'r weithdrefn ganlynol yn cwmpasu holl weithwyr, dysgwyr, aseswyr, gweinyddwyr a aseswyr sicrwydd ansawdd mewnol y BIP sy'n ymwneud ag ymgymryd â, datblygu, darparu, asesu ac ardystio rhaglenni dysgu achrededig seiliedig ar waith gyda'r corff achredu Agored Cymru.

| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd** | *Nid yw Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd wedi ei gwblhau.  Mae hyn oherwydd bod gweithdrefn wedi'i hysgrifennu i gefnogi'r broses o weithredu Polisi a Gweithdrefn Cydnabod Dysgu* |
|---|---|

| | |
|---|---|
| | *Blaenorol a Throsglwyddo Credydau'r Corff Dyfarnu Agored Cymru.* |
| **Dogfennau i'w darllen ar y cyd â'r weithdrefn hon** | Camymarfer Academaidd ac Asesu Teg wrth Gyflwyno Gweithdrefn Dysgu Achrededig (UHB 098)<br><br>Polisi a Gweithdrefn Gallu<br><br>Polisi Disgyblu<br>Gweithdrefn i Staff y GIG Godi Pryderon<br><br>Polisi Parchu a Datrys<br>Polisi Parchu a Datrys TERFYNOL Ebrill 2021.pdf (sharepoint.com)<br><br>Polisi Cwynion Agored Cymru<br>Polisi a Gweithdrefn Cwynion<br><br>Polisi Camymarfer a Chamweinyddu Agored Cymru<br>Polisi Camymarfer a Chamweinyddu Agored Cymru<br><br>Addasiadau Rhesymol i Bolisi Asesu Agored Cymru<br>Addasiadau Rhesymol i'r Polisi Asesu<br><br>Polisi Llên-ladrad Agored Cymru<br>Polisi a Gweithdrefn Llên-ladrad<br><br>Polisi Cadw Deunyddiau Asesu Agored Cymru<br>Polisi a Gweithdrefn Cadw Deunyddiau Asesu a Sicrwydd Ansawdd Mewnol<br><br>Polisi a Gweithdrefn Ystyriaethau Arbennig ar gyfer Asesu Agored Cymru<br>Polisi a Gweithdrefn Ystyriaethau Arbennig ar gyfer Asesu (v.6).pdf<br><br>Polisi a Gweithdrefn Cydnabod Dysgu Blaenorol a Throsglwyddo Credydau Agored Cymru<br>Polisi a Gweithdrefn Cydnabod Dysgu Blaenorol a Throsglwyddo Credydau Agored Cymru (v1.0) (4).pdf |

| | |
|---|---|
| | Polisi Safonau Asesu Canolfan (CASS) Agored Cymru<br>Polisi Craffu ar Safonau Asesu'r Ganolfan (CASS) (v.4).pdf<br><br>Canllawiau Deallusrwydd Artiffisial Canolfan Agored Cymru<br>Canllawiau Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer Canolfannau Agored Cymru |
| **Swyddog Gweithredol neu Gyfarwyddwr Bwrdd Clinigol Atebol** | Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant |
| **Awdur(on)** | Rheolwr ADDS ar gyfer Datblygu Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd.<br>Uwch Reolwr ADDS: Addysg Nyrsio a Bydwreigiaeth<br>Pennaeth Addysg, Diwylliant a Datblygu Sefydliadol (ADDS)<br>Cynrychiolydd Undeb Llafur |
| **Ymwadiad**<br>**Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch mai'r fersiwn rydych yn ei defnyddio yw'r un fwyaf diweddar naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu'r Gyfarwyddiaeth Lywodraethu.** | |

| **Crynodeb o adolygiadau/diwygiadau** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y Fersiwn** | **Dyddiad Cymeradwyo'r Adolygiad** | **Dyddiad Cyhoeddi** | **Crynodeb o Ddiwygiadau** |
| 1 | 20 Awst | 2013 | *Polisi newydd* |
| 2 | 20 Awst | 2016 | Yn disodli'r Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol blaenorol yn unol â'r fformat BIP cyfredol. Mae'n cynnwys adrannau newydd: cyfrifoldebau a sicrhau asesiad teg trwy addasiadau ac amgylchiadau arbennig. |
| 3 | 27 Tachwedd 2025 | | Diwygio o bolisi i weithdrefn. Diweddaru i fformat presennol y BIP<br>Diweddaru dogfennau i'w darllen ochr yn ochr â'r rhestr |

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Diffiniadau** | **5** |
| **2** | **Cyfrifoldebau** | **5** |
| **3** | **Prosesau CDB** | **8** |

| | |
|---|---|
| **1** | **Diffiniadau** |
| **1.1**<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**1.2** | Mae Cydnabod Dysgu Blaenorol (CDB) yn ddull dilys o alluogi unigolion i ddarparu tystiolaeth o ddysgu ac asesu blaenorol i hawlio credyd ar gyfer unedau, ni waeth sut y digwyddodd eu dysgu.<br><br>Diffiniad CDB yw:<br><br>*"Proses asesu sy'n ystyried a all dysgwr ddangos tystiolaeth eu bod yn bodloni gofynion asesu uned drwy feddu ar wybodaeth, dealltwriaeth a/neu sgiliau dangosadwy, nad oes angen datblygiad pellach ar y lefel a nodwyd, drwy gwrs dysgu."* (Agored, 2025)<br><br>Mae CDB yn galluogi cydnabod cyflawniad o ystod o weithgareddau gan ddefnyddio unrhyw fethodoleg asesiad priodol. Ar yr amod bod amcanion dysgu uned neu gymhwyster penodol wedi'u cyflawni, mae'r defnydd o CDB yn dderbyniol ar gyfer achredu uned, unedau neu, yn anaml, gymhwyster cyfan. Mae'n golygu nad oes gwahaniaeth rhwng cyflawni deilliannau dysgu a meini prawf asesu uned drwy ddysgu blaenorol neu drwy raglen astudio ffurfiol.<br><br>Mae CDB yn broses wirfoddol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Dylid cynnig cyngor i'r unigolyn ar natur ac ystod y dystiolaeth sy'n cael ei hystyried yn briodol, i gefnogi hawliad am gredyd trwy CDB, a chael arweiniad a chefnogaeth i wneud hawliad. Ni fydd credyd a ddyfernir trwy CDB yn cael ei wahaniaethu oddi wrth unrhyw gredydau eraill a ddyfarnwyd.<br><br>Mae corff dyfarnu yn sefydliad sy'n dylunio, datblygu a dyfarnu cydnabyddiaeth o ganlyniadau dysgu yn dilyn proses asesu a sicrwydd ansawdd gadarn.<br><br>Mae'r cyrff dyfarnu a gwmpesir gan y Weithdrefn hon yn cynnwys:<br><br>Agored Cymru |
| **2** | **Cyfrifoldebau** |
| **2.1** | Mae'n gyfrifoldeb ar bob gweithiwr sy'n darparu, asesu, gweinyddu, sicrhau ansawdd, neu ymgymryd â dysgu achrededig i fod yn ymwybodol o'r weithdrefn cydnabod dysgu blaenorol cyn dechrau ymwneud â chorff dyfarnu.<br><br>Mae gan y BIP gyfrifoldeb i addysgu staff i gynnal asesiad teg a chadarn. Gellir cyflawni hyn drwy hyfforddiant mewnol ac allanol a thrwy gydnabod cymwysterau asesu blaenorol. Rhaid i'r aseswr fodloni gofynion y corff dyfarnu, sy'n benodol i bob uned ddysgu a chymhwyster achrededig. Gall aseswr fod yn weithiwr i'r BIP sydd â chymhwyster asesu perthnasol neu sydd wedi cwblhau hyfforddiant priodol yn unol â meini prawf y corff dyfarnu. Rhaid i'r aseswr fod â dealltwriaeth glir o'r weithdrefn CDB hefyd a'i gofynion ar gyfer ymgeisio. |

| | |
|---|---|
| 2.2 | Yn ogystal, mae gan y BIP gyfrifoldeb i ddarparu sicrwydd ansawdd i'r cyrff dyfarnu drwy wiriadau sicrwydd ansawdd mewnol cadarn. Mae hyn yn cynnwys nodi a hyfforddi staff addas i weithredu fel sicrwydd ansawdd mewnol, sy'n adolygu'r broses asesu i sicrhau trylwyredd a hyrwyddo cysondeb ar draws y sefydliad. Mae'r gwiriadau mewnol hyn yn cefnogi'r safonau sicrwydd ansawdd allanol sy'n ofynnol gan gyrff dyfarnu.<br><br>Dylai pob bwrdd clinigol sy'n cyflwyno dysgu achrededig gael aseswr mewnol cymwysedig (AMC) i gymeradwyo ardystiad dysgwyr ac i gwblhau sicrwydd ansawdd a safoni. Dylai pob AMC o fewn y BIP fod â chymhwyster priodol yn unol â gofynion y corff dyfarnu. Os nad oes gan ardal sy'n darparu dysgu achrededig AMC, dylent nodi AMC cyn dechrau'r cwrs a cheisio nodi gweithiwr i gwblhau'r cymhwyster AMC. Rhaid i'r AMC fod â gwybodaeth yn y pwnc o fewn y dysgu achrededig y maent yn cymeradwyo tystysgrifau ar ei gyfer. Mae hyn yn golygu y dylai o leiaf un AMC gael ei nodi ar gyfer pob cymhwyster llawn sy'n cael ei addysgu.<br><br>Mae'r BIP yn gyfrifol am benodi rheolwr/arweinydd canolfan yn yr Adran Addysg, Diwylliant a Datblygu Sefydliadol (ADDS) sy'n gysylltiedig â'r corff dyfarnu ar gyfer sicrwydd ansawdd. Mae'n ofynnol i'r penodiad hwn drefnu a chyflwyno digwyddiadau safoni mewnol bob dwy flynedd i rannu arfer da a sicrhau bod gofynion sicrwydd ansawdd y cyrff dyfarnu yn cael eu bodloni. Bydd arweinydd y BIP yn helpu i nodi anghenion hyfforddi ar gyfer aseswyr, ac AMC. Bydd arweinydd y corff dyfarnu yn y BIP yn goruchwylio’r broses sicrwydd ansawdd ar gyfer pob AMC.<br><br>Gall pob dysgwr wneud cais i'w ganolfan am CDB ond er mwyn cefnogi eu hawliad rhaid i'r dysgwyr ddarparu tystiolaeth sy'n ddilys, gwirioneddol, digonol a dibynadwy, ac sydd wedi'i chyflawni o fewn cyfnod o amser y cytunwyd arno.<br><br>Cyfrifoldebau ar gyfer aelodau staff penodol y BIP yw:<br><br>Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Lles a Diwylliant DS<br>• Sicrhau bod cynnwys y Weithdrefn yn cael ei gymhwyso mewn modd teg a chyson o fewn y BIP.<br><br>Pennaeth yr Adran Addysg, Diwylliant a Datblygu Sefydliadol (ADDS) ac Uwch Reolwr ADDS ar gyfer Addysg Nyrsio a Bydwreigiaeth:<br><br>• Sicrhau bod aelod o staff yn ADDS sy'n cael ei benodi fel arweinydd corff dyfarnu’r BIP fel rhan o'u rôl.<br>• Sicrhau bod arweinydd corff dyfarnu’r BIP yn cael mynediad at yr hyfforddiant a'r adnoddau angenrheidiol iddynt gyflawni yn eu rôl.<br>• Cefnogi arweinydd canolfan corff dyfarnu’r BIP.<br>• Sicrhau yswiriant fel arweinydd corff dyfarnu’r BIP, os nad yw arweinydd |

canolfan corff dyfarnu'r BIP ar gael.

- Darparu cyswllt canolfan i'r corff dyfarnu.
- Cefnogi'r arweinydd canolfan y corff dyfarnu i weithredu fel cyswllt cyllid corff dyfarnu a rheoli'r gwaith o gaffael credydau addysgol.
- Rhoi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch CDB i Wasanaethau Pobl a rheolwyr llinell perthnasol y BIP.

Arweinydd ADDS Corff Dyfarnu'r BIP:

- Cymryd rhan lawn yn nigwyddiadau safoni'r corff dyfarnu.
- Cydlynu a chymryd rhan mewn digwyddiadau safoni mewnol bob dwy flynedd
- Cyswllt canolfan i'r corff dyfarnu.
- Cefnogi staff sy'n cwblhau hyfforddiant AMC.
- Cefnogi aseswyr ac aseswyr sicrwydd ansawdd mewnol a threfnu hyfforddiant
- Coladu tystiolaeth ar gyfer adolygiad blynyddol allanol y corff dyfarnu ac wedyn yn gweithredu ar gynlluniau gweithredu canolfan y corff dyfarnu.
- Gall wneud cais am ystyriaethau arbennig gyda chorff dyfarnu.

Aseswyr Sicrwydd Ansawdd Mewnol

- Cwblhau digwyddiadau safoni ar gyfer y cwrs y maent yn cyflwyno/AMC ynddo.
- Cadw llwybr archwilio ar gyfer adolygiadau mewnol ac allanol yn unol â phrosesau'r cyrff dyfarnu.
- Sicrhau bod yr holl ddeunydd addysgol a gynhyrchir i'w ddefnyddio yn bodloni meini prawf asesu'r corff dyfarnu.
- Cadw cofnodion cyfredol o aelodau staff sy'n cwblhau asesiad a dilysu mewnol a rhannu'r cofnodion hyn ag arweinydd canolfan corff dyfarnu'r BIP.
- Adrodd am unrhyw faterion o gamymarfer a chamweinyddu i arweinydd corff dyfarnu'r BIP.
- Adrodd am yr angen i ddefnyddio unrhyw addasiadau rhesymol neu ystyriaethau arbennig i arweinydd corff dyfarnu'r BIP.

- Dim ond ar ôl iddynt gyflawni holl ddeilliannau dysgu'r corff dyfarnu a phasio'r broses asesu a sicrwydd ansawdd mewnol yn llwyddiannus y bydd yn dyfarnu cymwysterau i ddysgwyr.
- Rhaid bod wedi mynychu sesiwn hyfforddi cyflwyniad i sicrwydd ansawdd mewnol.
- Rhaid rhoi gwybod am unrhyw bryderon o gamymarfer neu gamweinyddu i'r AMC Arweiniol.

Aseswyr

- Rhaid bod wedi mynychu hyfforddiant priodol (er enghraifft, cyflwyniad i asesu, Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg, neu fentora os yw wedi'i

| | |
|---|---|
| | gofrestru gyda chorff proffesiynol.<br>• I'r rheini sy'n gweithredu fel aseswr heb gofrestriad proffesiynol, rhaid iddynt fod wedi cwblhau neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster aseswr cymeradwy. Rhaid iddynt fodloni meini prawf asesu'r corff dyfarnu.<br>• Rhaid rhoi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch camymarfer a chamweinyddu i'r aseswr sicrwydd ansawdd mewnol.<br>• Rhaid rhoi gwybod am yr angen i weithredu ystyriaethau arbennig gydag arweinydd canolfan corff dyfarnu'r BIP.<br>• Rhaid adrodd am yr angen i wneud addasiadau rhesymol i'r aseswr sicrwydd ansawdd mewnol<br><br>Unigolion<br>• Rhaid sicrhau bod unrhyw waith a gyflwynir ei waith ei hun.<br>• Rhaid llofnodi datganiad llên-ladrad a dilysrwydd.<br>• Rhaid trafod unrhyw addasiadau rhesymol gyda'r aseswr cyn cael ei gofrestru ar yr uned ddysgu neu gymhwyster achrededig.<br>• Rhaid adrodd am yr angen am ystyriaethau arbennig cyn gynted â phosibl yn unol â pholisïau'r corff dyfarnu.<br><br>Cyrff Dyfarnu<br>• Cwblhau adolygiadau cydraddoldeb allanol blynyddol a llunio cynlluniau gweithredu'r ganolfan pan fo angen.<br>• Cefnogi a chynghori'r BIP i ymchwilio i gamymarfer.<br>• Darparu polisïau a gweithdrefnau a chanllawiau hygyrch cyfredol.<br>• Galluogi asesu a dilysu cyflawniadau dysgu nad ydynt wedi'u hardystio na'u hachredu o'r blaen. |
| **3** | **Proses CDB** |
| **3.1**<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**3.2** | Mae'r amodau canlynol yn berthnasol:<br><br>• Rhaid i ddysgwyr fod wedi'u cofrestru gyda chorff dyfarnu cydnabyddedig (Agored) cyn gynted ag y byddant yn dechrau casglu tystiolaeth yn ffurfiol<br>• Mae cofnodion asesu yn cael eu cadw, fel ar gyfer unrhyw uned/ cymhwyster arall gan gynnwys Sicrwydd Ansawdd Mewnol<br>• Mae ardystiad a hawliadau yn cael eu gwneud yn unol â gweithdrefnau a enwir h.y. wedi'u cefnogi â datganiadau tystion a thystiolaeth arall<br>• Mae'r holl dystiolaeth berthnasol yn cael ei hasesu ac mae'r ymgeisydd yn cael ei hysbysu cyn i benderfyniadau asesu gael eu cwblhau<br><br>Er mwyn cyflawni uned credyd gan ddefnyddio CDB, mae dau opsiwn ar agor i'r dysgwr:<br><br>1) Ymgymryd â'r un asesiadau â'r rhai a ddilynir yn y cwrs ffurfiol o ddysgu ac asesu sy'n arwain at yr uned neu'r cymhwyster a ddymunir. Gellir |

| | |
|---|---|
| | cynnal yr asesiadau hyn heb fynychu sesiynau a addysgir. Os yw'r olaf yn wir, rhaid cael datganiad dilysrwydd, wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan y dysgwr a'i lofnodi gan dyst (y tiwtor fel arfer) neu gall y tiwtor arsylwi ar y dysgwr yn ymgymryd â'r asesiad.<br><br>2) Cyflwyno portffolio o dystiolaeth yn seiliedig ar ddysgu, sgiliau a/neu gymhwysedd blaenorol wedi'i groesgyfeirio â'r deilliannau dysgu a meini prawf asesu'r uned neu'r unedau y ceisir CDB ar eu cyfer, ynghyd â datganiad dilysrwydd, wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan y dysgwr a'i lofnodi gan dyst (y tiwtor fel arfer). |
| **3.3** | Os yw dysgwr yn cyflwyno tystiolaeth i'w hystyried ar gyfer CDB, bydd yr aseswr yn ei hadolygu ac yn gwneud penderfyniad ffurfiol ar ei haddasrwydd. Mae penderfyniadau ynghylch priodoldeb CDB fel arfer yn cael eu gwneud fesul cymhwyster a/neu ddysgwr. Pan fo'r CDB yn briodol, ni fydd angen i ddysgwyr gael unrhyw ddysgu neu asesiad pellach ar gyfer yr uned(au) perthnasol. |
| **3.4** | Rhaid gwerthuso'r holl dystiolaeth gan ddefnyddio'r deilliannau dysgu penodedig yn yr uned sy'n cael ei hawlio. Wrth asesu uned gan ddefnyddio CDB, rhaid i'r aseswr fod yn fodlon bod y dystiolaeth a gynhyrchir gan y dysgwr yn bodloni'r safon asesu a sefydlwyd gan y deilliant dysgu. |
| **3.5** | Os oes amheuaeth am ba mor gyfredol yw'r dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno ar gyfer CDB, gall yr aseswr ddefnyddio cwestiynau neu ddulliau asesu eraill i wirio bod gwybodaeth a dealltwriaeth a chymhwysedd y dysgwr yn gyfredol. |
| **3.6** | Pan fydd tystiolaeth a gyflwynir ar gyfer CDB yn cael ei hasesu a chanfyddir nad yw'n ddigonol i gwmpasu'r deilliannau dysgu a/neu'r meini prawf asesu, rhaid i'r aseswr ddefnyddio dulliau asesu ychwanegol i gasglu digon o dystiolaeth i allu dyfarnu'r uned. |
| **3.7** | Rhaid i'r holl dystiolaeth a gyflwynir gan y dysgwr ar gyfer CDB gynnwys cyfeirnodau clir a chyfeiriadau gan y dysgwr i'r deilliannau dysgu a'r meini prawf asesu y mae'n eu bodloni er mwyn hwyluso asesu mewnol, sicrwydd ansawdd mewnol a sicrwydd ansawdd allanol. |
| **3.8** | Rhaid i ganolfannau hysbysu Agored am unrhyw hawliadau am gyflawniad drwy CDB lle mae'r dysgwr wedi cwblhau gofynion asesu gwahanol i asesiad safonol y garfan. |